

"Cyfleoedd Cyfartal yw trin pawb gyda'r un parch, foddeddfgarwch a thegwch ag y byddech yn disgwyl ei fael i chi eich hun"

CYDNABYDDIAETHAU

- A yw'r digwyddiadau a'r llenyddiaeth yn ein hysgolion, llyfrgelloedd a phrosiectau ieuenctid yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol a diddordebau amrywiol y cymunedau yn ein Bwrdeistref Sirol a'n byd?
- Ydy ni'n gweld ein hunain fel y 'norm' ac eraill yn greaduriaid ecsotig a chyfareddol?
- A yw pob cyrhaeddiad yn cael ei gydnabod a'i deilyngu yn ôl yr ymdrech a wnaed ganddynt yn hytrach na thrwy eu cymharu ag eraill?

Mae nifer o sefydliadau ac unigolwain wedi cyfrannu tuag at gynhyrchu'r llyfryn hwn. Dymuna'r Awdurdod Addysg Lleol ddiolch i aelodau'r Gweithgor a dreuliodd sawl mis yn casglu a llunio'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn. Dymuna'r Awdurdod Addysg Lleol hefyd ddiolch ag unigolion a sefydliadau a roddodd sylwadau ac awgrymiadau ar y drafftiau amrywiol.

Dymuna'r Gweithgor estyn eu diolch i'r holl staff cefnogi a ddarparodd y prosesu geiriau hanfodol, am eu gwaith caled, cefnogaeth weinyddol a syniadau dylunio. Hebddynt ni fyddai dogfennau'n gweld golau dydd. Gweler Atodiad 5 am restr o'r holl gyfranwyr.

Mae gweision y neidr yn dyddio'n ôl bron i 300 miliwn blwyddyn, sy'n eu gosod ymysg y creaduriaid byw hynaf oll.

Maent yn gyfareddol a phrydferth ac yn chwarae rôl bwysig yn niwylliant y byd, gan gynnwys ein diwylliant ni. Defnyddiwyd hwy mewn rhai darluniau sych ar gyfer seremonïau Navaho, mewn chwedloniaeth Siapaneg, credau a thraddodiadau gwerin Philipinaidd, llenyddiaeth a barddoniaeth Cymru a Lloegr, a llawer mwy eto.

The Dragon Fly gan Alfred Lord Tennyson.

Today I saw the Dragonfly
Come from the wells where he did lie.
An inner impulse rent the veil
Of his old husk from head to tail
Came out clear plates of sapphire mail
He dried his wings: like gauze they grew,
Thro' crofts and pastures wet with dew
A living flash of light he flew.

CYNNWYS

Tudalen

● A ddisgwylir i unigolion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol fod yn llefarwyr dros eu tarddiadau/ diwylliant/ crefydd? Yn aml nid ydynt mewn sefyllfa i wybod rhyw lawer, a byddent yn hoffi cymysgu fel pawb arall.	1 Cyflwyniad - gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Hamdden	5
	2 Cydraddoldeb Cyfle i bawb - Datganiad Polisi o Fwriad	7
	3 Fframwaith Deddfwriaethol Deddfwriaeth Cyfle Cyfartal	9
	4 Datblygu Fframwaith Gweithredu - arfau argymelledig i symud ymlaen ar nifer o faterion	13
	5 Trefn Polisi Argymelledig amlinelliaid polisi i'w ddefnyddio gan ysgolion	15
● A ydym yn sicrhau bod gan rieni plant ag anabledd corfforol y cyfle cyfartal i fynegi dewis dros gael derbyn a/neu drosglwyddo eu plant i ysgol ag sydd gan blant abl?	6 Côt Ymddygiad ar gyfer disgyblion/myfyrwyr	23
	7 Atodiadau	
	Atodiad 1 Gweithdrefnau enghreifftiol Gwrthaflynyddu a Gwrthfwlio'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol	25
	Atodiad 2 Ffurflenni Archwilio 'Dysgu i bawb' (y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol)	30
	Atodiad 3 Geirfa	38
	Atodiad 4 Adnoddau, cysylltiadau	41
● Ydych chi wedi ystyried cyfarch plant a'u dysgu sut i ateb y gofrestr mewn nifer fawr o ieithoedd gan gynnwys y rhai hynny y byddant yn gallu defnyddio ar eu gwyliau?	Atodiad 5 Rhestr cyfranwyr	46

1. CYFLWYNIAD

Annwyl Gydwethiwr

- A yw pawb yn cael cyfle i leisio'u barn?
- A yw pawb yn sylweddoli bod pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd a bod angen mwy, neu lai o amser ar rai na'i gilydd i gael mynediad i, a chymathu gwahanol fathau o wybodaeth?
- A ydym yn ddigon dewr i adnabod a wynebu ein rhagfarnau ein hunain?

O bob sialens sy'n wynebu'r Awdurdod a'i ysgolion, mae maes Cyfleoedd Cyfartal yn un sy'n dibynnu ar weithredu penderfynol a chydweithredu. Mae llawer o'r problemau wedi eu gwreiddio'n ddwfn ac angen ymateb wedi ei gydlynu gan bob un o'r partneriaid os ydym am weld gwelliannau. Mae ysgolion yn chwaraewyr allweddol yn hyn a bydd eu hymdrechion yn gyfrwng i gyflawni'n hamcanion.

Rwy'n sicr y bydd y ddogfen ganllaw hon yn cael cryn effaith ar Gyfleoedd Cyfartal yn ysgolion ac adrannau'r Fwrdeistref Sirol. Mae'n fynegiant clir o awydd yr Awdurdod i wneud popeth bosibl i gael gwared ag unrhyw anghydraddoldeb all fod, a chynnig cefnogaeth ymarferol i ysgolion.

Mae deddfwriaeth yn y maes hwn yn gymhleth ac mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb syml o'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol. Mae hefyd yn cynnwys Fformat Polisi drafft y byddai ysgolion efallai am ei ystyried ac mae'n dangos sut gellir troi polisi ysgol yn rhaglen weithredu.

Gyda chydweithrediad llawn llywodraethwyr, staff, rhieni a'r Awdurdod Lleol, dylai'r ddogfen hon alluogi pob ysgol i roi eu gwaith Cyfleoedd Cyfartal ar sylfaen gadarn.

Terry Garner

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Hamdden

2. CYFLE CYFARTAL I BAWB

- A ydym yn dathlu a rhoi gwerth ar 'wahaniaeth'?
- A welir cyfleoedd cyfartal fel pwnc ar wahân/ ychwanegol neu a ydynt wedi eu hymgorffori i bob agwedd o'n bywydau a'r Cwricwlwm?
- Mewn cymuned sy'n Gristnogol at ei gilydd, a oes cyfle i ddathlu amrywiaeth o grefyddau?

Mae'r awdurdod yn credu bod cydraddoldeb yn ganolog i addysg o safon ac y dylai pob unigolyn fod â hawl gyfartal i ddatblygu a chyflawni eu potensial i'r eithaf drwy'r system addysg. Dylai addysg a dysgu gydol oes annog cyd edmygedd - rhoi ymwybyddiaeth o amrywiaeth a'i werth i bawb, i'w paratoi ar gyfer bywyd lle gall pawb gyfrannu tuag at gymdeithas a theimlo'u bod yn perthyn iddi.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio mewn partneriaeth â phob grŵp sy'n cyfrannu at sbectrwm gwasanaeth addysg: plant, pobl ifanc, penaethiaid, cyrff llywodraethu, staff, gwirfoddolwyr, rhieni, yr AALI a'r gymuned ehangach. Gall gwahaniaethu annheg godi ar draws holl sbectrwm ein gweithgareddau - ond nid yw byth yn dderbyniol.

Cydnabyddir nad oes gan bobl fan dechrau cyfartal, a allai fod yn anfantais, felly gall llawer brofi gamwahaniaethu. Bydd yr Awdurdod yn gweithio yn erbyn pob math o gamwahaniaethu, gan ymdrechu i sicrhau bod dysgu gydol oes yn gallu cwrdd ag anghenion pawb gwaeth beth fo'u hadnoddau ariannol na'u gallu, oed, pryd a gwedd, lliw, diwylliant, anabledd, treftadaeth/gwreiddiau ethnig, statws HIV, iaith, statws priodasol, cenedligrwydd, barn wleidyddol, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol na'u maint.

3. FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL - Deddfwriaethol Cyfle Cyfartal

DEDDFWRIAETH

Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975

Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976

Deddf Plant 1989

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000

1 GWAHANIAETHU AR SAIL RHYW

Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975 yn sefydlu'r egwyddor gyffredinol ei bod yn anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn unigolyn ar sail rhyw, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

(a) Gwahaniaethu mewn Cyflogaeth

Ar wahân i eithriadau penodol mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu rhwng dynion a merched yn nhrefniadau recriwtio staff; yn y termau gwaith a gynigir iddynt; trwy wrthod neu beidio â chynnig gwaith yn fwriadol; yn y ffordd y rhoddir mynediad neu beidio, ynghylch dyrchafu, trosglwyddo neu hyfforddi neu fuddiannau eraill ayb.; a thrwy ddiswyddo unigolyn neu eu hymostwng i unrhyw anfantais arall, ar sail rhyw. Mae'n gyfreithlon gwahaniaethu lle bo'u rhyw yn gymhwyster galwedigaethol ar gyfer swydd.

(b) Gwahaniaethu mewn Addysg

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw AALL, corff llywodraethu neu berchennog sefydliad addysgol wahaniaethu yn erbyn disgybl ar sail ei rhyw/ryw:

(i) Yn nhermau cynnig lle,

(ii) Drwy wrthod neu hepgor yn fwriadol derbyn cais am le,

• A yw merched a dynion yn cael yr un cyfle ac anogaeth i chwarae'r un chwaraeon/gemau? A roddir yr un maint o le i'r ddau ryw?

• A yw merched a bechgyn yn cael mynediad cyfartal i deganau ac offer fel doliau, teganau adeiladu, cyfrifiaduron ayb?

• A yw pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'n hysgolion a'r cwricwlwm?

• Ydych chi'n rhoi mwy o sylw i fechgyn/dynion hyd yn oed os yw peth o'r sylw hwnnw'n negyddol?

- A yw disgyblion Caribiaidd a disgyblion du eraill yn cael bod eu hunaniaeth a'u diwylliant wedi ei adlewyrchu'n dda yng nghwricwlwm yr ysgol?

- Sut caiff cynnydd disgyblion lleiafrif ethnig yr ysgol ei fonitro a sut mesurir eu cyrhaeddiad?

- Ydych chi'n herio iaith anaddas ynghylch materion anabledd e.e. 'yr anabl'?

- Ydych chi'n gwneud rhagdybiaethau ynghylch galluoedd corfforol disgybl ag anabled? Ceisiwch beidio â gwneud rhagdybiaethau, yn union fel gyda'r gweddill ohonom, y disgybl gydag anabledd fydd yn gwybod orau amdani/amdano'i hun.

(iii) Yn y modd y maent yn rhoi mynediad i unrhyw fuddiannau, cyfleusterau neu wasanaethau, neu drwy wrthod neu gyfaddef yn fwriadol i roi mynediad iddynt, neu drwy ei (h)eithrio o'r sefydliad, neu drwy ei (d)darostwng i unrhyw golled; neu drwy erledigaeth

II GWAHANIAETHU AR SAIL HIL

Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i rwystro gwahaniaethu ar sail hil. Mae Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol 2000 yn cynnwys dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

(a) Gwahaniaethu mewn Cyflogaeth

Mae'r gyfraith yn erbyn gwahaniaethu ar sail hil mewn gwaith yn dilyn y gyfraith berthnasol i wahaniaethu ar sail rhyw yn agos. Mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu ar sail hil ac eithrio os oes angen gwir gymwysterau galwedigaethol.

b) Gwahaniaethu mewn Addysg

Gosodwyd dyletswydd gyffredinol ar AauALL a chyrrff llywodraethu i ddarparu cyfleusterau a buddiau atodol a gwasanaethau heb wahaniaethu ar sail hil.

III GWAHANIAETHU AR SAIL ANABLEDD

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled 1995 yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i gyflogwr gamwahaniaethu'n anghyfiawn yn erbyn gweithwyr neu ddarpar weithwyr wrth recriwtio, hyfforddi, hyrwyddo, diswyddo ac agweddau eraill o'r berthynas. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar gyflogwyr i ddiddymu'r anfantais sylweddol i bobl anabl trwy wneud addasiadau rhesymol i'w hadeiladau a threfniadau'n gyffredinol.

(a) Gwahaniaethu mewn Cyflogaeth

Trwy rinwedd Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabled 1995 nid yw cyflogwyr i gamwahaniaethu'n anghyfiawn yn erbyn gweithwyr na darpar weithwyr wrth recriwtio, hyfforddi, dyrchafu, diswyddo ac agweddau eraill o'r berthynas.

Mae cyflogwyr hefyd i wneud addasiadau rhesymol i'w hadeiladau a threfniadau'n gyffredinol i ddileu anfanteision sylweddol i bobl anabl.

(b) Gwahaniaethu mewn Addysg

Nid yw'r Ddeddf yn cwmpasu darparu addysg. Ond nid yw AauALL a chyrff llywodraethu i wahaniaethu yn erbyn pobl anabl, sef y rhai hynny sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n effeithio'n sylweddol a thymor hir ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd wrth iddynt gyflenwi gwasanaethau nad ydynt yn rhai addysgol. Byddai hyn yn cynnwys cyflenwi nwyddau a chyfleusterau, yn enwedig mynediad i'r ysgol, y gall fod ei angen ar rieni, er enghraifft, mewn cyfarfodydd o'r corff llywodraethu, ac i ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon a gweithgareddau codi arian. Cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth yw cydymffurfio â hawliau mynediad. Gall hyn fod yn gorff llywodraethu'r ysgol neu'r AALL neu adran arall o'r awdurdod lleol neu gymdeithas athrawon rhieni.

Mae Atodiad 2 o Ddeddf Plant 1989 yn delio, ymysg pethau eraill, â chyfrifoldebau'r awdurdod lleol i gefnogi plant a'u teuluoedd. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant ag anableddau fel eu bod yn lleihau effaith yr anableddau hynny a rhoi cyfle i'r plant hynny i fyw bywydau sydd mor normal â phosibl.

- Ydych chi'n cydnabod bod angen cyfartaledd cyfle ar bobl anabl ac nid ffafriaeth?
- A yw pob taith/gwibdaith ysgol yn gwbl hygyrch yn gorfforol?
- A ydych yn rhoi lwfans amser i blant gwblhau rhai tasgau?

4. DATBLYGU FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU

	Ysgol	Dyddiad Gweithredu
<ul style="list-style-type: none"> ● A yw swyddi staff yn cael eu hysbysebu'n ddigonol? ● Gwnewch bob ymdrech i ddiwallu anghenion iaith priodol? ● Pa beirianwaith sy'n weithredol i fonitro effeithlonrwydd polisi cyfleoedd cyfartal yr ysgol/ prosiect ieuenctid? 	<ul style="list-style-type: none"> • Adrodd i gyrff llywodraethu yn ystod • Enwebu mentor Cyfleoedd Cyfartal sydd mewn safle digon uchel i ymgorffori cyfleoedd cyfartal i becynnau cyflwyno'r staff ac a fydd yn cynnwys yr eitem hon ar raglen cyfarfodydd staff ac yn annog staff i awgrymu gwelliannau i gyfleoedd cyfartal. • Mabwysiadu Datganiad Polisi o Fwriad: (tudalen 7) <ul style="list-style-type: none"> - yn gynwysedig ym mhrosbectws yr ysgol • Mabwysiadu Ffurf Polisi (tudalen 15) <ul style="list-style-type: none"> - rhannu gyda staff, disgyblion - rhoi copi i'r rhieni • Mabwysiadu Côt Ymddygiad a gweithdrefn canu cloch: (tudalen 23) <ul style="list-style-type: none"> - rhoi copi i rieni a phob disgybl • Gweithdrefnau Gwrthaflonyddu a Gwrthfwlio: (Atodiad 1) <ul style="list-style-type: none"> - gweithdrefnau'n weithredol • Trefnu hyfforddiant i holl staff llywodraethwr mewn cyfleoedd cyfartal a chamwahaniaethu ar sail hil. Ymgorffori hyfforddiant llywodraethwyr a datblygiad proffesiynol. (Sicrhau bod hyfforddiant yn ystyried materion o Adran G 'Dysgu i Bawb'.) • Sefydlu monitro i gofnodi digwyddiadau hiliol a bwlio ac aflonyddu a hefyd cyrhaeddiad disgyblion trwy bresenoldeb ac eithrio. (gweler hefyd Atodiad 3a yn y ddogfen CCH 'Dysgu i Bawb' - Canllaw i Arolygwyr yng Nghymru) • Angen cydlynu gyda'r AALL i sicrhau cyfieithu llythyrau/gwybodaeth a gwasanaethau cyfieithu i rieni nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. • Sefydlu gweithdrefnau monitro i sicrhau bod yr holl bwyntiau gweithredu yn cael eu cyflawni. 	

5. AWGRYM O FFURF POLISI I YSGOLION I'W FABWYSIADU: Datganiad a Chanllawiau

- Ydych chi'n rhoi cyfle i ddisgyblion glywed a darllen enghreifftiau da o Gymraeg/Saesneg? Ystyriwch grwpio disgyblion sydd â SIY iddynt gyda phlant galluog?
- A oes gennych system ffrind yn weithredol i arwain y disgybl newydd yn ystod yr ychydig ddyddiau cyntaf?
- Ydych chi'n darparu deunyddiau clyweled ychwanegol?

Mae'r ffurf polisi a chanllawiau ychwanegol wedi ei gynnwys i gynorthwyo ysgolion i lunio'u datganiad eu hunain. Mae copi o hwn ar gael ar ddisg i ysgolion fel eu bod yn gallu ei newid fel bo'r angen i gyd-fynd ag anghenion pob sefydliad neilltuol. Awgrymir y ffurf polisi hwn o waith a gyflawnwyd gan Uned Bolisi Cyfleoedd Cyfartal Sir Caerloyw.

Ethos ac Awyrgylch

Yn Ysgol _____ rydym yn ymwybodol bod y rhai hynny sydd ynghlwm wrth arwain y gymuned ysgol â rhan mewn dangos parch rhwng holl aelodau'r gymuned ysgol.

- Dylai'r awyrgylch fod yn un 'agored' yn croesawu pawb i'r ysgol
- Mae plant yn cael eu hannog i groesawu ymwelwyr i'r ysgol gyda chyfeillgarwch a pharch.
- Mae'r arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol o safon uchel ac yn adlewyrchu amrywiaeth ar draws holl agweddau cydraddoldeb cyfle.
- Efallai fod mynediad corfforol i'r ysgol yn anodd dan amgylchiadau arferol, ond dylai fod ffyrdd i ymwelwyr ag anabledau gael mynediad i'r ysgol.
- Gwneir darpariaeth i ddiwallu anghenion ysbrydol pob plentyn drwy gynllunio cyfarfodydd boreol a gweithgareddau dosbarth.

Amgylchfyd Dysgu

- Mae disgwyliadau uchel, cyson o bob disgybl gwaeth beth fo'i oed, rhyw, ethnigrwydd, gallu, neu gefndir cymdeithasol. Mae pob disgybl yn cael ei annog i wella ei gyraeddiadau ei hun a pheidio â mesur ei hun yn erbyn eraill. Mae rhieni'n cael eu hannog i weld cyraeddiadau eu plant yn unol â hyn.

- Ydych chi'n sylweddoli bod plant a phobl ifanc yn treulio 85% o'u hamser y tu allan i'r ysgol? Sut rydym yn gwerthfawrogi'r sgiliau y maent yn eu dysgu yn ystod yr amser hwnnw?
- Ydych chi'n cysylltu ag athro/athrawes SIY wrth lunio rhaglen iaith unigol?

- Mae brwdfrydedd yr athro'n ffactor hanfodol mewn cyflawni lefel uchel o ysgogiad a chanlyniadau da gan bob disgybl.
- Mae'r oedolion yn yr ysgol yn ceisio darparu modelau rôl cadranhaol da yn eu hymagwedd at yr holl faterion sy'n ymwneud â chydaddoldeb cyfle.
- Mae'r ysgolion yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i ddarparu anghenion addysgol arbennig. Rydym yn anelu at gwrdd ag holl anghenion dysgu'r disgyblion, gan gynnwys y rhai mwy galluog, drwy raglenni gwaith a weinyddir ac a asesir yn ofalus (gweler Polisi AAA).
- Mae'r ysgol yn darparu amgylchfyd lle mae gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i gyfleusterau ac adnoddau.
- Mae'r disgyblion i gyd yn cymryd rhan weithredol yn eu haddysg eu hunain.
- Defnyddir amywiaeth o ddulliau addysgu drwy'r ysgol i sicrhau bod dysgu effeithiol yn digwydd ymhob cam i bob disgybl.

DARPARIAETH ALLGWICWLAIDD

Mae'n bolisi gan yr ysgol hon i roi mynediad cyfartal i bob gweithgaredd o oedran cynnar e.e. merched yn chwarae pêl-rwyd, bechgyn yn chwarae pêl rwyd a thimau cymysg lle bo'n bosibl.

Rydym yn ymgymryd â chyfrifoldeb i wneud darparwyr gweithgareddau allgwrwlaidd yn ymwybodol o ymroddiad yr ysgol i gyfartaledd cyfle (e.e. cynorthwywyr chwaraeon, gyrwyr bysiau) drwy roi canllawiau ysgrifenedig iddynt a seiliwyd ar y polisi hwn.

Rydym yn ceisio sicrhau bod yr holl aelodau hynny nad ydynt yn staff, sydd â chysylltiad â phlant, yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn.

DARPARIAETH IEITHYDDOL YCHWNAEGOL

Rydym ni yn Ysgol _____ yn ymgymryd â gwneud darpariaeth briodol i bob grŵp dwyiethiog i sicrhau mynediad i'r cwricwlwn cyflawn. Gall y grwpiau hyn gynnwys:

Plant Teithwyr

Rhai o gartrefi ffoaduriaid

Ceiswyr noddfa

Disgyblion lle nad yw eu hiaith gartref yn ffurf safonol o'r Saesneg.

Disgyblion y mae'r Gymraeg/Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Tra bod angen i ddisgyblion ddysgu cyfathrebu mewn Cymraeg/Saesneg safonol, credwn y dylid dathlu a pharchu eu hiaith gartref.

Staffio a Datblygu Staff

- A yw hyfforddi staff yn cael ei hysbysebu'n effeithiol?
- A yw penodiadau mewnol yn cael eu hysbysebu bob tro?
- A yw pawb yn deall bod ymddygiad anoddefgar a chamwahaniaethol yn annerbyniol? Ydych chi weithiau'n drysu rhwng bwlio a digwyddiadau hiliol?

Rydym yn rhwym dan ofynion cyfreithiol Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975 a Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976, Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, Deddf Plant 1989, Deddf Fframwaith a Safonau Ysgol 1998 a Deddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol, ac fe'n harweinir gan gyfarwyddyd polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Rydym yn cydnabod yr angen am fodelau rôl cadarnhaol a dosbarthu cyfrifoldeb ymysg staff. Yn ddelfrydol, byddai hyn yn cynnwys hawl disgyblion i gael cydbwysedd o ran staff sy'n ddynion a merched yn y ddau gyfnod allweddol.

Rydym yn ymgymryd ag annog datblygu gyrfa a dyheadau pob unigolyn. Mae'n bolisi gennym ddarparu hyfforddi a datblygu ar gyfer staff a fydd yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o anghenion gwahanol grwpiau o ddisgyblion yn y gwahanol agweddau o gydraddoldeb cyfle.

Aflonyddu a Bwlio

Mae'n ddyletswydd ar yr ysgol i herio pob math o ymddygiad gwahaniaethu e.e.

Rhoi sylw heb fod ei eisiau (geiriol a chorfforol), sylwadau neu awgrymiadau sarhaus am bryd a gwedd neu gymeriad rhywun arall.

Mae gan yr ysgol weithdrefn glir, gytunedig i ddelio â digwyddiadau fel hyn. (Anfonwyd copi o'r Polisi Bwlio i bob ysgol 10/09/97, a gellir dod o hyd i weithdrefnau awgrymedig yn Atodiad 1).

Mae'n ofyniad cyfreithiol fod pob digwyddiad o Aflonyddu Ar Sail Hil a Bwlio, yr ymdrinir â hwy, dan weithdrefn gytunedig. Mae copi o ffurflenni archwilio'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol '*Dysgu i Bawb*' ar gael yn Atodiad 2 (anfonwyd copïau o'r ddogfen '*Dysgu i Bawb*' yn uniongyrchol at bob ysgol gan CCH).

- Ydych chi'n cydnabod nad yw pawb yn dod o deulu traddodiadol gyda mam a thad?

- Mewn nosweithiau rhieni, a oes gennych nifer cyfartal o fechgyn a merched yn cyfarwyddo rhieni o amgylch yr ysgol?

Rhieni a'r Gymuned Ehangach

Rydym ym anelu at weithio mewn partneriaeth gyda rhieni i helpu pob disgybl i gyflawni ei botensial.

Hoffem gadarnhau ein hymroddiad parhaus i fod o fewn cyrraedd grwpiau diwylliannol eraill yn ein cymuned gyfagos a thu hwnt.

Y CWRICWLWM A DDYSGIR

- Yn Ysgol _____ Rydym yn anelu at sicrhau bod ein cynllunio'n adlewyrchu ein hymroddiad penodol o gydraddoldeb cyfle ym mhob maes pwnc a themâu trawsgwricwlaidd, i gyd-fynd â Chwricwlwm Cenedlaethol 2000.
- Mae ein cynllunio yn ystyried gwahanol anghenion disgyblion a'u cynnydd.
- Mae gennym ymroddiad i werthuso ein canlyniadau cwricwlaidd bob tymor, er mwyn sicrhau bod yr hyn a gynlluniwyd gennym yn digwydd. Y pennaeth sy'n cwblhau'r gwerthusiadau hyn.

ADNODDAU A DEUNYDDIAU

Mae darparu adnoddau a deunyddiau o ansawdd da yn Ysgol _____ yn flaenoriaeth uchel. Dylai'r adnoddau hyn:

- adlewyrchu 'gwir natur cymdeithas sy'n amrywiol o ran cenedl a diwylliant';
- adlewyrchu safbwyntiau gwahanol;
- bortreadu dynion a merched, gan gynnwys pobl anabl, mewn cymdeithas yn bositif;
- adlewyrchu portreadau nad ydynt yn stereoteip o bob grŵp mewn cyd-destun byd-eang;
- gynnwys deunyddiau i godi ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal;
- fod yn hawdd i gyrraedd atynt yn gyfartal i bob aelod o gymuned ysgol yn gyson ag iechyd a diogelwch;
- beidio â chynnwys deunyddiau sy'n ensynedig neu'n amlwg hiliol neu'n rhywiaethol.

- Ydych chi'n pwysleisio eich disgwiliadau cyfleoedd cyfartal yn eich bywyd a'ch gwaith bob dydd?
- Ydych chi'n annog cefnogaeth y rhieni a'r gymuned o wahanol grwpiau oedran a dynion a merched?
- A yw rhieni di Gymraeg yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg?

Iaith

Yn Ysgol _____ rydym yn cydnabod ei bod hi'n bwysig fod holl aelodau cymuned yr ysgol yn defnyddio iaith addas nad yw'n:

trosglwyddo neu'n cadarnhau stereoteipiau;

tramgwyddo;

Ond yn hytrach yn:

creu a gwella delweddau cadarnhaol o'r grwpiau neilltuol a nodir ar ddechrau'r ddogfen hon;

creu'r amodau lle gall pawb ddatblygu'i hunan barch

defnyddio'r ieithwedd gywir wrth gyfeirio at grwpiau neu unigolion neilltuol e.e Inuit yn hytrach nag Esgimo, Americanaid Brodorol yn hytrach nag Indiaid Cochion

Trefnu Dysgu

Ystyrir cyfansoddiad y grŵp bob amser wrth drefnu grwpiau ar gyfer gweithgareddau amrywiol er mwyn creu cydbwysedd sy'n briodol i'r gweithgaredd.

Yn Ysgol _____ nid yw ein hamgylchfyd yn ddiwylliannol amrywiol, ac rydym yn ymwybodol iawn o'r angen i roi profiadau uniongyrchol i'r disgyblion i gyfarfod pobl o ddiwylliannau eraill. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

Fonitro ac Adolygu

Nodir Cydraddoldeb Cyfle fel maes sydd angen cynllunio gofalus a monitro sy'n mynd ymlaen yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol.

Yr aelod o'r staff sy'n gyfrifol am gydlynu monitro a gwerthuso'r polisi yw

Bydd yn gyfrifol am: _____

- Arwain trafodaethau mewn cyfarfodydd staff penodol, a fydd yn cynnwys staff cefnogi, i drafod materion cyfleoedd cyfartal yn y gymuned ysgol.

- A yw cofnodion cyfarfodydd ar gael i holl aelodau'r staff?

- A yw polisiâu yn cael eu trafod a'u cyddrafod yn effeithiol (gyda staff dysgu, staff nad ydynt yn dysgu, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion)?

- Weithio'n agos gyda'r llywodraethwr sy'n gyfrifol am y maes hwn, sef: _____
- Fonitro'r canlynol i allugoi'r ysgol i weld lle bydd angen canolbwyntio mwy ar gydraddoldeb cyfle.

canlyniadau TASau
 cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol
 gwahardd a thriwantaeth
 asesu parhaus o ddysgu'r plant
 digwyddiadau hiliol a rhywiaethol
 canlyniadau gwirio am anghenion dysgu neilltuol
 presenoldeb

Recriwtio, Dyrchafu a Hyfforddi

- 1 Datblygu polisi cyfleoedd cyfartal ar gyfer recriwtio, dyrchafu a hyfforddi
- 2 Gosod cynllun gweithredu, gyda thargedau, fel bod gennych chi, a'ch staff syniad clir o beth y gellir ei gyflawni ac erbyn pryd.
- 3 Darparu hyfforddiant i bawb, gan gynnwys rheolwyr, drwy eich ysgol, i sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb cyfle. Darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff/cyrff llywodraethu/athrawon sy'n recriwtio, dewis a hyfforddi eich gweithwyr.
- 4 Asesu'r sefyllfa bresennol i sefydlu eich man dechrau a monitro'r cynnydd o ran cyflawni eich amcanion.
- 5 Adolygu gweithdrefnau recriwtio, dewis, dyrchafu, a hyfforddi yn rheolaidd i sicrhau eich bod yn cyflawni eich polisi.
- 6 Llunio meini prawf clir y gellir eu cyfiawnhau, sy'n amlwg yn wrthrychol ac yn berthnasol i'r swydd.
- 7 Cynnig hyfforddiant cyn-gyflogaeth, lle bo'n briodol, i baratoi darpar ymgeiswyr swyddi ar gyfer profion dewis a chyfweliadau; dylech hefyd ystyried hyfforddiant gweithredu cadarnhaol i helpu gweithwyr o leiafrif ethnig i wneud cais am swyddi mewn meysydd lle maent wedi eu tangynrychioli.

- A yw hyfforddiant staff yn cael ei hysbysebu'n effeithiol?
- A oes gennych bolisiâu sy'n cael eu gweithredu'n gyson?
- Ydych chi'n canfod a chwrdd ag anghenion datblygu eich staff i gyd i'w galluogi i gefnogi'r disgyblion lleiafrif ethnig? Pobl ifanc?

- 8 Ystyried delwedd eich ysgol. Ydych chi'n annog ymgeiswyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn cynnwys merched, staff o leiafrif ethnig a phobl ag anableddau mewn deunyddiau recriwtio, neu a ellir eich gweld fel cyflogwr sy'n ddifater i'w grwpiau?
- 9 Ystyried gweithio hyblyg, seibiannau mewn gyrfa, darparu cyfleusterau gofalu am blant ayb., i helpu merched yn enwedig i gwrdd â dyletswyddau cartref a chanlyn eu gyrfa; ac ystyried darparu offer arbennig a chymorth i helpu pobl ag anableddau.
- 10 Datblygu cysylltiadau â grwpiau a mudiadau cymuned lleol er mwyn cyrraedd carfan ehangach o ddarpar ymgeiswyr.

6. CÔD YMDDYGIAD I DDISGYBLION A MYFYRWYR

Gellir ymgorffori'r Côt Ymddygiad hwn i Gytundebau Cartref/Ysgol a'i addasu ar gyfer anghenion eich ysgol.

Ysgol _____

Byddwn yn annog yn weithredol ein plant a'n pobl ifanc i herio:

- Ydych chi'n herio iaith anaddas ynghylch materion anabledd e.e. 'yr anabl'?

- A oes ethos agored?

- Ydych chi'n defnyddio jargon amhriodol a allai eithrio rhywun o sgwrs?

- Ydych chi'n tybio bod pawb yn byw mewn tŷ?

- llysenwi, gwneud sylwadau neu jocan sarhaus;
- ysgrifennu graffiti neu ddangos sloganau sarhaus;
- difrodi eiddo neu adeiladau ysgol;
- dod â llenyddiaeth sarhaus neu gamwahaniaethol i'r ysgol;
- ceisio hyrwyddo hiliaeth neu fathau eraill o ormesu;
- gwrthod eistedd wrth ymyl, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phlant/pobl ifanc eraill ar sail unrhyw gamwahaniaethu;
- aflonyddu ar eraill yn yr amgylchfyd dysgu.

Hyrwyddir Ystyried, Parchu a Gofalu am bawb a'r adeilad.

Mae gan yr ysgol bolisi 'Canu Cloch' gweithredol i gefnogi ac amddiffyn pob plentyn, unigolyn ifanc a hŷn, sydd am gwyno, herio ymddygiad sarhaus, neu sy'n ceisio helpu eu hunain os yw ymddygiad neu agwedd rhywun arall yn eu heffeithio'n andwyol.

7. ATODIADAU

Atodiad 1

Gweithdrefnau Gwrth-aflonyddu a Gwrthfwlian

Cyflwyniad

Mae cael eich bwlio yn brofiad annifyr iawn, yn arbennig i blentyn. Gall yr effeithiau arwain at anhapusrwydd, colli hunan barch a diffyg llwyddiant.

Nod y ddogfen hon yw cefnogi ysgolion Wrecsam yn eu hymdrechion i ymateb i'r pwnc a datblygu dull effeithiol o ymateb.

Beth yw Bwlio?

Mae bwlio:

- wedi'i gynllunio'n fwriadol
- yn cael ei gyflawni gan unigolyn neu grŵp
- yn ymddygiad sydd wedi'i gynllunio i achosi poen
- mae'n cael ei ail adrodd
- mae'n cael ei wneud o safle dybiedig o rym
- mae'n gorfforol neu seicolegol

Gall bwlio gael ei fynegi mewn nifer o ffyrdd fel:

- gofyn am arian neu fygwth
- lledaenu sibrydion, pryfocio, herio, neilltuo cymdeithasol
- taro'n ddibaid
- dal

Gall bwlio ddigwydd oherwydd gwahaniaethau gwirioneddol neu dybiedig rhwng unigolion neu grwpiau, er enghraifft:

- gallu neu berfformiad corfforol neu academaidd
- tras, cenedl a dosbarth cymdeithasol
- grwpiau o ffrindiau ac aelodaeth o grŵp neu dîm

Problem Pwy?

A derbyn bod bwlio'n digwydd ym mhob ysgol ar un cyfnod neu'i gilydd, y dull mwyaf effeithiol o edrych i'r dyfodol yw datblygu polisi sy'n cynnwys yr holl ysgol a gwneud lle i bawb gymeryd rhan, yn llywodraethwyr, disgyblion a rhieni.

Dylai'r drefn o fewn ysgolion fod yn un syml a chlr ac yn cyfarfod y gofynion canlynol:

DEALL BWLIO

ATAL BWLIO

ADNABOD BWLIO

RHEOLI ACHLYSURON O FWLIO

CYMORTH I'R DIODDEFWYR

GWEITHIO GYDA BWLIS

Bydd agwedd pobl yn amrywio ym mhob cymdeithas gyda golwg ar fwlio. Efallai y bydd angen profi i rai bod bwlio'n broblem. Mewn nifer o amgylchiadau pan fo ysgolion wedi datblygu eu cynlluniau, mae hyffoddiant yn angenrheidiol.

Mae'r adran isod yn pwysleisio'r materion amrywiol sydd i'w hystyried. Mae'r rhestr ymhell o fod yn gyflawn, ond mae'n fan cychwyn.

Arwyddion i gadw llygad arnynt

- Plant sydd ddim eisiau mynd allan i chwarae;
- Plant sy'n aros gydag oedolion yn ystod cyfnodau pan nad oes gweithgareddau;
- Plant sy'n colli eu pres cinio;
- Plant gyda mwy o arian na'r cyfryw;
- Plant sy'n absennol yn aml;
- Plant sy'n ymddangos yn anhapus, ar wahân neu'n bryderus.

Trefnu a Rheoli

Gellir gwneud llawer gyda golwg ar y ffordd mae'r ysgol yn cael ei threfnu a'i rheoli. Gallai hyn gynnwys:

- Systemau a strategaethau ar gyfer delio gyda bwlio, trafod a chofnodi effeithiol ble bynnag mae hyn yn rhan o ofal bugeiliol;
- Rheoli ymddygiad yn ystod amser egwyl a chinio, chwalu grwpiau a lefelau goruchwyliaeth;
- Cymeryd sylw o'r amgylchfyd corfforol a'r sefyllfa'n gyffredinol;
- Polisi addas ar gyfer ymddygiad a disgyblaeth, y defnydd o wobrwyo a chosb;
- Rhoi sylw i hyrwyddo rheolaeth dosbarthiadau a dulliau dysgu addas;
- Cyfleoedd oddi fewn i'r ysgol i hyrwyddo delwedd pob disgybl unigol;

-
- Rhoi blaenoriaeth a chyhoeddi cynlluniau am y drefn o ddelio â bwli;
 - Trefniadau ar gyfer cefnogi'r dioddefwyr;
 - Trefniadau ar gyfer ateb problemau'r bwli fel y gellir gwella ei ymddygiad.

Materion Cwricwlwm

Dylai bwlio gael ei drin trwy gyfrwng y cwricwlwm ar gyfer pob disgybl, mewn rhaglenni Addysg Bersonol a Chymdeithasol neu wersi bugeiliol. Gellid cyflwyno syniadau i blant ar sut i osgoi sefyllfaoedd lle gallant gael eu bwlio.

- Datblygu'r hyder i ddweud wrth oedolyn am y broblem;
- Defnyddio eu grwp cyfoedion i gadw'n ddiogel;
- Dulliau o beidio rhoi bodlonrwydd i'r bwli;
- Llunio trefn i osgoi'r bwli;
- Dulliau o beidio tynnu sylw'r bwli;
- Ffyrdd o drin gwahanol fathau o fwlio.

Rhan y Llywodraethwyr

Gall Llywodraethwyr chwarae rhan bwysig trwy godi mater bwlio a sicrhau bod y mater hwn ar yr agenda a sicrhau bod gan yr ysgol bolisi addas. Gellir holi'r ysgol o safbwynt effeithiolrwydd eu polisi trwy ofyn, er enghraifft:

- Sut mae'r polisi'n cael ei gyflwyno i'r rhieni, plant a staff?
- Sut all y dioddefwr siarad yn ddirgel â rhywun?
- Sut mae'r ysgol yn cefnogi'r rhai sy'n dioddef?
- Sut mae'r ysgol yn cofnodi achosion o fwlio?
- Sut mae awyrgylch yr ysgol yn ennyn neu'n anghymeradwyo bwlio?

Rhan yr athrawon a staff eraill

Mae'n bwysig bod athrawon ac aelodau o staff nad ydynt yn athrawon yn deall ac yn ymroddedig i bolisi atal bwlio yn arbennig o ran ei ddatblygu a'i ledaenu. Mae hyfforddi staff yn rhan bwysig o'r broses er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn deall y broblem. Mae'r agwedd tuag at fwlio'n dibynnu ar brofiad yr unigolyn a'i ddiwydrwydd wrth ymdrin â'r sefyllfa.

Fe all fod angen ystyried dull rheolaeth aelodau staff hân a'u perthynas ag aelodau eraill o'r staff, yn arbennig o flaen y disgyblion.

Trwy eu cyswllt dyddiol â phlant mae'r staff mewn sefyllfa i ddylanwadu ar holl awyrgylch yr ysgol trwy ddatblygu agwedd bositif, perthynas lawn gofal a bod yn fodelau rôl priodol. Bydd cyfleoedd arbennig i weithio gyda grwpiau a disgyblion unigol i ateb y broblem a chreu dulliau i ddisgyblion ddatblygu delwedd bositif ohonynt eu hunain.

Dylai unigolion ofyn cwestiynau iddynt eu hunain am eu hymateb i fwlio megis:

- A ydych yn ymateb yn gyflym i achosion o fwlio?
- A ydych yn casglu'r holl ffeithiau cyn gwneud penderfyniad?
- A ydych yn eich grŵp tiwtorial yn ceisio dod ag achosion o fwlio i'r amlwg er mwyn ceisio rhwystro bwlio?
- A yw trefniadaeth eich dosbarth yn helpu leihau neu annog achosion o fwlio?
- A ydych yn ymroddedig i drefniadau megis dyletswydd amser chwarae / bws er mwyn lleihau achosion o fwlio?
- A yw'r rhai sy'n cael eu bwlio'n gallu trafod hynny efo chi?
- A ydych yn fodel addas?

Cyfraniad y Rhieni

Mae trafod bwlio gyda rhieni yn gallu atal a hefyd adnabod bwlio. Gall rhieni helpu trwy:

- fod yn ymwybodol o arwyddion bod plentyn yn cael ei fwlio, cur pen, gofyn am fwy o arian poced, amharod i fynd i'r ysgol.
- cymeryd diddordeb yn mywyd cymdeithasol y plentyn, cylch ffrindiau etc.
- gwybod â phwy i gysylltu yn yr ysgol os tybir bod bwlio'n digwydd.
- cysylltu â'r ysgol ar unwaith os digwydd achos o fwlio a chyflwyno cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl gyda golwg ar PWY, BETH, PRYD a LLE.

Rhan y disgyblion

Dylai pob plentyn sy'n debygol o gael ei fwlio fod yn rhan o'r broses atal e.e.

- Helpu i ddatblygu trefn ar gyfer cofnodi bwlio, gan gynnwys datblygu rheolau ysgol.
- Helpu staff i ddatrys achosion o fwlio.
- Cymeryd rhan o fewn gweithgareddau creadigol allai gynnwys prosiectau creadigol, celfyddydol, un ai fel gweithgareddau allgwricwlaidd neu fel rhan o'r cwricwlwm bugeiliol Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Rhan yr Awdurdod Addysg Lleol

- Mae gan yr AALL nifer o wasanaethau sy'n gallu helpu ysgolion yn eu hymdrechion i atal neu ddatrys y sefyllfa bwlio yn arbennig y GCA a'r Gwasanaeth Seicoleg i helpu ysgolion ddatblygu polisi a threfniadau.

Yn yr achosion mwyaf cymhleth mae'n bosibl cefnogi'r rhai sy'n dioddef o fwlio ac mae cynlluniau wedi'u datblygu i newid agwedd bwlis. Yn aml mae achos o fwlio yn arwydd o broblemau eraill sydd angen eu harchwilio neu eu hasesu.

Tuag at Bolisi Ysgol Gyflawn

Gallai'r camau canlynol fod yn addas ar gyfer datblygu a gweithredu polisi ysgol gyfan :

